

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Rhaglen Gaffael 2018 - 2024

■ Diwylliant ■ Economaidd ■ Yr Amgylchedd ■ Cymdeithasol



1. Cyflwyniad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi pennu ei weledigaeth ar gyfer datblygu a rheoli'r amgylchedd byw y mae'n ceisio ei greu ar gyfer preswylwyr a busnesau o fewn y Fwrdeistref Sirol yn ei Amcanion Llesiant.

Bydd y swyddogaeth gaffael yn cefnogi Amcanion Llesiant y Cyngor a rhaglen Llywodraethu Llywodraeth Cymru gyda'i Rhaglen Gaffael.

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i sicrhau ei fod yn cyflawni gwerth am arian o'i wariant caffael trydydd parti, sef tua £251 miliwn y flwyddyn. Mae hefyd yn cydnabod gwerth defnyddio caffael i gefnogi ei amcanion Diwylliannol, Cymdeithasol, Economaidd ac Amgylcheddol ehangach, mewn ffyrdd sy'n cynnig buddion hirdymor gwirioneddol i'r gymuned mae'n ei gwasanaethu a phobl Cymru, gan gydbwyso materion gwerth am arian yr un pryd.

Mae angen i'n Rhaglen Gaffael fod yn strategaeth fyw, hyblyg, addasadwy ac ymatebol i'r amgylchedd sy'n newid; yn fodiwlaid ei natur er mwyn gallu ei hadolygu a'i diweddarau'n rhwydd yn flynyddol, yn unol â datblygiadau yn y maes caffael. Bydd ein dull gweithredu yn un o welliannau parhaus er mwyn ysgogi newidiadau gwirioneddol ac i wella bywydau'r rhai sy'n byw ac yn gweithio yn ein Bwrdeistref Sirol.

Bydd y Rhaglen Gaffael yn adeiladu ar lwyddiant y Cyngor i gyflawni'r amcan Llesiant cyffredinol.

2. Diffiniad o Gaffael

Diffinnir caffael fel y broses lle bydd sefydliadau yn cyflawni eu hanghenion o ran nwyddau, gwasanaethau, gwaith a chyfleustodau mewn ffordd sy'n cyflawni gwerth am arian ar sail oes gyfan, yn nhermau creu buddiannau nid yn unig i'r sefydliad, ond hefyd i gymdeithas a'r economi, gan sicrhau'r difrod lleiaf posibl i'r amgylchedd. (1)

Mae swyddogaeth Gaffael y Cyngor yn dîm canolog o weithwyr caffael proffesiynol. Dangosodd gwiriad ffitrwydd Llywodraeth Cymru bod y swyddogaeth yn ***“Aeddfed gyda sgôr aeddfedrwydd gyffredinol o ddatblygu tuag at lefel uwch”***.

3. Strwythur Arweinyddiaeth a Llywodraethu ar gyfer Caffael

Strwythur arweinyddiaeth a llywodraethu ar gyfer caffael y Cyngor yw: -

Arweinyddiaeth drwy Aelodau Cabinet ac, yn benodol, yr Aelod Cabinet dros y Wasanaethau Corfforaethol ac Eiddo.

- Uned Gaffael Gorfforaethol, sy'n rhan o'r gyfadran Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol.
- Pennaeth Caffael sy'n meddu ar gymhwyster proffesiynol, sy'n goruchwyllo'r holl weithgareddau caffael dros £75,000, ac mae'n adrodd i'r Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol.
- Prosesau a gweithdrefnau sydd wedi'u diffinio'n glir, ynghyd â phroses ffurfiol o ddirprwyo awdurdod o ran gweithgareddau caffael sydd wedi'u hymgorffori yn y Rheolau Sefydlog ar gyfer Contractau, y Cod Ymarfer Caffael a Rheoliadau Ariannol.
- Mae'n rhaid rheoli pob caffaeliad dros £10,000 o fewn ein system e-gaffael ni, Proactis. System gaffael electronig hollol dryloyw yw hon, sydd wedi'i sefydlu ar gyfer pob caffaeliad dros £10,000 gyda gweithdrefnau a rheolaethau wedi'u hymgorffori sy'n alinio â meini prawf awdurdodi rhagosodedig. Mae pob caffaeliad o dan £10,000 yn cael eu trosglwyddo er mwyn sicrhau proses effeithlon: gyda gwariant cyffredin ac ailadroddus yn cael ei reoli drwy drefniadau sydd eisoes wedi'u sefydlu ar gyfer dibenion o'r fath.

Thema Strategol – Diwylliant

Strategaeth – bydd y Cyngor yn rheoli unrhyw wariant trydydd parti y gellir dylanwadu arno (gan gynnwys Comisiynu), drwy broses gaffael agored, teg a thryloyw, gan ddefnyddio egwyddorion rheoliadau Caffael y DU yn ogystal â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Pholisi Caffael Cyhoeddus Llywodraeth Cymru pan fo'n berthnasol. Bydd swyddogion yn gweithio o fewn strwythurau llywodraethu sefydledig. Bydd ein dull yn un o welliannau parhaus, gyda'r nod o ddylanwadu ar y newid gwirioneddol y mae'r Cyngor am ei gyflawni i fywydau'r rhai sy'n byw ac yn gweithio yn y Fwrdeistref Sirol. Bydd y Cyngor yn defnyddio dull categori sy'n seiliedig ar gynlluniau cyfarwyddiaethau. Defnyddir Model Lleoli Cyflenwad y Cyngor, Atodiad A, i bennu gwerth ariannol y gofyniad yn erbyn y risg i'r farchnad, er mwyn cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau a phennu'r ffordd ymlaen yr un pryd.

Nodau Strategol (yr hyn yr ydym eisiau ei gyflawni)	Y camau a gymerwyd eisoes tuag at nodau strategol	Beth fydd llwyddiant/sut y caiff ei fesur?	Sut y byddwn yn ei gyflawni	Pryd
Bydd swyddogion yn gweithio o fewn egwyddorion Safon Gwasanaeth Cwsmeriaid y Cyngor ar gyfer pob cwsmer.	Mae hon yn Safon newydd i'w mabwysiadu ar draws y maes gwasanaeth.	Dull unffurf o gyflawni anghenion cwsmeriaid, gyda sgorau'r arolwg cwsmeriaid blynyddol yn sail iddo. Mesur: drwy gerdyn sgorau corfforaethol.	Hyfforddi a datblygu swyddogion. Y safonau yn cael eu hymgorffori yn y prosesau caffael. Y canlyniadau'n cael eu monitro, eu mesur a'u hadrodd i'r Uwch Dîm Rheoli.	Gweithredu Rhagfyr 2017. Adolygiadau blynyddol.
Bydd gwariant 3ydd Parti yn cael ei gaffael drwy drefniadau Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol. Croesewir cydweithrediad pan fydd hynny'n briodol. Bydd modelau cyflenwi amgen yn cael eu hystyried pan fydd hynny'n briodol.	Cynllun caffael 5 mlynedd wedi'i sefydlu. Defnyddio cydweithrediad pan fydd yn bosibl a phan fydd yn cynrychioli buddion i'r Cyngor. Dulliau allanol a gwaith partneriaid cyfyngedig ar waith.	Rhaglen gaffael wedi'i chymeradwyo ar gyfer Gwent, sy'n cefnogi prosesau caffael Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol. Mesur: drwy gerdyn sgorau corfforaethol. Dulliau dadansoddi gwariant ar draws y Cyngor, sy'n dangos gweithgarwch gwario. Gydag adolygiadau blynyddol. Datblygu modelau cydweithio gyda chyflenwyr allanol (trydydd parti) pan fydd hynny'n briodol. Er mwyn datblygu meysydd megis Tryloywder Gwybodaeth – rhannu data gyda chyflenwyr.	Rhaglen gaffael Cymru gyfan. Strategaeth Gyrchu CLILC – Datblygu modelau newydd ar gyfer integreiddio a gweithio mewn partneriaeth â chontractwyr a darparwyr gwasanaeth. Modelau contract addas i'r diben. Y model cywir ar gyfer yr amgylchedd cywir.	Dechrau 2017 gydag adolygiadau blynyddol. 2025 Mae angen dull cyflwyno fesul cam, risg adnoddau a risg gwybodaeth i'r math o contractio sydd ei angen.

		Dealltwriaeth o opsiynau modelau cydweithio i greu buddion ariannol Archwilio modelau cydweithio amgen megis Cyd-fentrau Rhithwir, hyfywedd llafur a phrosesau, hyfywedd modelau gweithredu/cydweithio. Mesur: o fewn y cynllun gwella gwasanaethau.		
Proffilio a lliniaru risgiau prosiectau drwy ddatblygu a defnyddio modelau Lleoli Cyflenwyr, chwiliadau Dunn a Bradstreet a strategaethau lliniaru risgiau eraill.	Dulliau ansoddol arwahanol megis archwiliadau cyflenwyr, cofrestrau risgiau, mapiau gwres ac yn y blaen.	Cyfes o fetrigau risgiau meintiol a ddatblygwyd, megis Cyfanswm Cost Risg i'r gadwyn gyflenwi, categori a'r lefel cyflenwr. Buddsoddiad lliniaru risgiau yn llwyr ar draws y gadwyn gyflenwi. Y pris cywir o drosglwyddo risgiau i gyflenwyr, cwsmeriaid a thrydydd parti megis cwmnïau yswiriant. Mesur: fel rhan o'r cynllun gwella gwasanaethau a'r dangosyddion perfformiad allweddol.	Rheoli risgiau caffael mewn dull cynhwysfawr, parhaus, gyda gwaith monitro ac asesu rheolaidd o ffactorau risg uchel. Lliniaru a chefnogi risgiau drwy ymgysylltu â chwmnïau gwasanaethau ariannol.	2025 – Mae angen deall bod hyn yn newid mawr ac y bydd yn galw am ddull cyflwyno fesul cam, wedi'i reoli.
Byddwn yn ymwybodol o'r dulliau Rheoli Caffael a'i hyrwyddo yn yr oes o dryloywder cymdeithasol.	Proses gaffael draddodiadol, electronig a phapur. Amlygiad cyfyngedig i adweithiau'r cyfryngau cymdeithasol.	Proses gadarn a dogfennaeth briodol am gontractau sy'n lliniaru yn erbyn rhyngweithio amhriodol ar y cyfryngau cymdeithasol a chyswmeriaid. Mesur: o fewn y cynllun gwella gwasanaethau.	Cyfathrebu effeithiol a phrosesau agored. Mae polisi/geiriad dogfennaeth y broses dendro yn atal i wybodaeth gael ei datgelu drwy'r cyfryngau cymdeithasol neu drwy ddulliau eraill.	Cyflwyniad fesul cam hyd at 2020.
Swyddogaeth gaffael fodern, hyblyg ac arloesol, wedi'i staffio gan weithwyr caffael proffesiynol sy'n meddu ar y wybodaeth, y sgiliau a'r arbenigedd sydd eu hangen i herio'r sefyllfa fel ag y mae a chefnogi gweithrediadau busnes ar draws pob disgyblaeth yn y dyfodol.	Adnoddau cyfyngedig, sy'n lleihau, gyda chyfyngiadau o ran gwybodaeth am faterion cyfreithiol ac ariannol felly yn ddibynnol iawn ar eraill yn y disgyblaethau hyn. Prynu consortiwm yn gamweithredol ac nid yw'n cynnig gwerth am arian.	Gallu caffael mwy cyflawn gyda swyddogion Caffael sy'n fedrus yn fasnachol i wneud penderfyniadau cytbwys ar risgiau sy'n gefnogol i niwed. Arbenigwyr caffael sy'n meddu ar sgiliau ariannol ehangach fel y	Datblygiad wedi'i dargedu a'i gefnogi, sydd wedi'i alinio â'r angen busnes. Hyfforddiant i gynnwys Hunan-gyllido, benthyca uniongyrchol, cyllido trydydd parti ac yn y blaen. Rheoli a phroffilio	Cyflwyniad fesul cam hyd at 2023.

	Defnyddio Proses Cyffyrddiad Ysgafn (LTR) Cyfarwyddiaethau'r UE, defnydd ehangach, uwch o Systemau Caffael Deinamig (DPS), Ymgysylltiad ysgafn â'r farchnad, gweithgareddau ymgysylltu â'r farchnad.	gallant asesu materion gweithredol ehangach. Yr adrannau caffael a chyllid i ddeall y gwahanol ffyrdd o ariannu pob agwedd ar y gadwyn gyflenwi ar gyfer prosiectau cymhleth mawr. Sefydlogrwydd tymor hwy mewn contractau sy'n hyblyg eu natur. Ymgynghori / ymchwil gyda defnyddwyr gwasanaeth, y gymuned a'r farchnad er mwyn ailddiffinio anghenion a chreu cyfleoedd i gyflawni gwerth cymdeithasol. Mesur: drwy'r cynllun gwella gwasanaethau ac adborth gan gwsmeriaid.	risgiau. Ymgysylltu'n llawn gyda'r farchnad a rhanddeiliaid cyn y broses dendro er mwyn sefydlu contractau priodol a chymesur. Defnydd ehangach o ddulliau caffael arloesol, er enghraifft y prosesau LTR a DPS.	
Cynnwys Is-gymalau Buddion Cymdeithasol yn Nhelerau ac Amodau'r Contract pan fydd hynny'n briodol.	Is-gymalau Buddion Cymunedol yn cael eu cynnwys mewn contractau perthnasol (Craidd a rhai Nad ydynt yn rhai Craidd).	Sefydlu system cofnodi a monitro sy'n sicrhau, pan fydd buddion cymdeithasol wedi cael eu cynnwys mewn contractau, eu bod yn cael eu cyflawni. Gweithdrefnau gyda ffocws mwy lleol ar gyfer contractio o dan y trothwy. Mesur: drwy'r cynllun gwella gwasanaethau.	Sefydlu a diffinio is-gymalau priodol, Dangosyddion Perfformiad Allweddol a system cofnodi a monitro - Defnydd ehangach o'r Modiwl Rheoli Contractau i Reoli Contractau. Addasu gweithdrefnau i ganiatáu ceisiadau am nifer fach o ddyfynbrisiau gan fusnesau lleol ochr yn ochr ag eraill. Sicrhau y gweithredir Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) pan fydd hynny'n briodol. Adolygu Methodoleg TOM pan fydd hynny'n briodol.	2017 gydag adolygiadau blynyddol i sicrhau bod y buddion cymdeithasol yn parhau i fod yn addas i'w diben a'u bod yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Thema Strategol – Economaidd

Strategaeth – Bydd y Cyngor yn ysgogi gwerth ei wariant trydydd parti er mwyn ysgogi mwy o adfywiad cymdeithasol ac economaidd i'r cymunedau mae'n eu gwasanaethu. Byddwn yn gweithio i nodi cyfleoedd i fusnesau lleol weithio gyda ni; byddwn yn archwilio pob cyfle i gyflwyno arloesedd i'n prosesau a'n harferion caffael, er mwyn cyflawni canlyniadau gwell a sicrhau gwerth cymdeithasol uwch i bob un o'n cwsmeriaid.

Ymgyrch gyson i sicrhau gwerth gorau, gan ddefnyddio dull oes gyfan a fydd yn ystyried cyfleoedd ar gyfer economïau cylchol a sylfaenol.

Mae economi gylchol yn ddewis amgen i economi linellol draddodiadol (gwneud, defnyddio, gwaredu) lle byddwn yn parhau i ddefnyddio adnoddau cyhyd ag y gallwn, sicrhau'r gwerth mwyaf ohonynt wrth eu defnyddio, yna adfer ac adfywio cynnyrch a deunyddiau ar ddiwedd oes pob gwasanaeth. Yr Economi Sylfaenol yw'r enw mawreddog am y gweithgareddau busnes hynny a ddefnyddiwn bob dydd ac sy'n ein hamgylchynu. Mae'n cynnwys busnesau fel manwerthu, gofal a'r diwydiant bwyd. Mae angen i ni ystyried cymhwysiad ehangach o weithgareddau o'r fath fel effeithiau lliniaru Brexit, drwy sefydlu sail gyflenwi gadarn drwy ein heconomi leol.

Nodau Strategol (yr hyn yr ydym eisiau ei gyflawni)	Y camau a gymerwyd eisoes tuag at nodau strategol	Beth fydd llwyddiant/sut y caiff ei fesur?	Sut y byddwn yn ei gyflawni	Pryd
Datblygu ein systemau electronig er mwyn symleiddio a gwella prosesau a gweithdrefnau ymhellach er mwyn sicrhau bod y profiad o wneud busnes gyda'r Cyngor yn broses mor effeithlon, rhwydd a didrafferth â phosibl. Bydd ein systemau caffael electronig yn cael eu datblygu fel priffyrdd gwybodaeth deinamig, gyda gwybodaeth yn llifo i mewn ac allan o'r sefydliad, gan ddarparu gwybodaeth amserol i bob parti, a fydd yn sicrhau bod ein rhyngweithiadau busnes mor rhwydd ac effeithlon â phosibl. Bydd datblygu ateb Pasbort i Fasnachu'r Cyngor yn ffurfio rhan o'r broses hon.	Mae ein system e-gaffael eisoes yn cael ei defnyddio ar gyfer 60% o dendrau'r Cyngor. Mae system e-gaffael gorfforaethol unigol, o'r dechrau i'r diwedd, wedi cael ei sefydlu ers nifer o flynyddoedd. Anfonir pob archeb yn electronig at gyflenwyr ac mae nifer gynyddol o anfonebau yn cael eu derbyn yn electronig. Mae system Rheoli Contractau gynhwysfawr, sydd wedi'i hintegreiddio'n llwyr, yn cael ei defnyddio. Defnyddio Systemau Prynu Deinamig (DPS) a methodoleg eraill, sy'n cynnwys y Pasbort i Fasnachu er mwyn lleihau'r baich ar ymgeiswyr drwy ddefnyddio technoleg.	Mae'r gofynion caffael yn gymesur ac nid ydynt yn creu rhwystrau diangen i fentrau bach neu ganolig eu maint, mentrau cymdeithasol a grwpiau gwirfoddol. Dangosyddion Perfformiad Allweddol blynyddol sy'n dangos bod y ganran o wariant gyda chyflenwyr lleol yn parhau i adlewyrchu'n gadarnhaol (yn ddarostyngedig i weithgarwch caffael mewn blwyddyn benodol gyda chryfderau'r sail gyflenwi leol). System gadarn i reoli a chefnogi llif wybodaeth lawn i'r gadwyn gyflenwi. Defnydd a datblygiad arloesol o dechnolegau newydd. Rhwyddineb i gyflenwyr eu defnyddio. Mesur: drwy gynllun gwella gwasanaethau a dangosyddion perfformiad allweddol a gyflwynir i'r uwch dîm rheoli drwy gerdyn sgorau corfforaethol.	Drwy fuddsoddi amser ac adnoddau a gweithio'n agosach gyda'n partneriaid cyflenwi technoleg i ganfod atebion mwy ystwyth a symudol. Ymestyn yr egwyddorion a gyflwynwyd drwy'r broses DPS ymhellach er mwyn datblygu ateb Pasbort i Fasnachu sy'n lleihau'r angen i gyflenwyr gyflwyno gwybodaeth cyn cymhwyso mewn cynigion tendrau olynol.	Cyflwyniad fesul cam hyd at 2025.
Ochr yn ochr â'r pwyslais mwy traddodiadol ar gostau a chydymffurfiaeth wrth wneud penderfyniadau masnachol, byddwn yn ystyried ffactorau ehangach megis datblygiad economaidd a buddion cymdeithasol.	Gweithredu Model Buddion Cymunedol y Cyngor. Darparu cefnogaeth ar gyfer y berthynas â chyflenwyr er mwyn helpu cyflenwyr lleol i baratoi i wneud busnes gyda ni. Ymrwymiad y Cyngor i ddatblygu a chefnogi'r economi leol. Dulliau cefnogol eraill sy'n cynnwys Holiaduron Cyn Cymhwyso a methodoleg gwerthuso. Mae Blaenraglenni Gwaith eisoes wedi'u sefydlu.	% o'r gwariant gyda chadwyni cyflenwi lleol yn cael eu monitro a'u meincnodi yn flynyddol. Datblygu a phrofi Dangosyddion Perfformiad Allweddol addas ac wedi'u symleiddio, er mwyn sicrhau bod y mesurau a gymerir yn gost effeithiol i'r cyflenwyr a'r Cyngor. Bydd pob contract yn cael eu mapio ar gyfer y dyfodol er mwyn nodi gwerth cymdeithasol a nodau llesiant posibl, gan roi dealltwriaeth well o'n contractau ar y Blaenraglenni Gwaith er mwyn meincnodi contractau addas. Cysylltiadau gwaith agosach gyda'r gwasanaeth comisiynu.	Methodoleg gymdeithasol ac economaidd gadarn sy'n gallu dangos tystiolaeth o ganlyniadau. Ymrwymiad i'r gadwyn gyflenwi. Pecyn Offer Buddion Cymunedol sy'n chefnogi'r Model Buddion Cymunedol (Cyfrifydd Buddion Cymunedol Llywodraeth Cymru pan fydd hynny'n berthnasol). Rheoli Contract. Mapio Blaenraglenni Gwaith yn y Dyfodol.	Erbyn 2020

		Mesur: drwy'r cynllun gwella gwasanaethau a'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol cerdyn sgorau corfforaethol.	Gwerthuso a chymhwyso os yw'n briodol. Methodoleg TOM er mwyn sicrhau mesur perfformiad cadarn.	
Datblygu methodoleg sy'n arddangos bod y gwaith caffael a wneir yn creu ac yn cyflawni gwerth uwch i'r sefydliadau o'u pwyso a'u mesur yn erbyn cost ariannol y swyddogaeth. Creu ystyr gwerth sy'n ymgorffori, ond nad yw'n cael ei lywodraethu, gan arbedion.	Gwerthfawrogiad ac adrodd gwerth cyfyngedig. Sefydlwyd rhaglenni gwaith y gyfarwyddiaeth ac adborth blyneddol. Barn gynhenid o'r gwerth y mae'r ddisgyblaeth gaffael yn ei gyflawni	Derbyniad sefydliadol bod 'gwerth' yn fwy nac arbedion. Dealltwriaeth fwy cytbwys o werth y gadwyn gyflenwi. Datblygu canlyniad ar sail comisiynu.	Drwy weithio'n agosach gyda'r adran Gyllid ac uwch randdeiliaid eraill a darparu tystiolaeth i ategu dealltwriaeth wedi'i ailddiffinio o gontractio ar sail gwerth canlyniadau.	2018
Defnydd cynyddol o arbenigedd dadansoddol a rheoli data er mwyn helpu i gyflawni targed o 90% o wariant gyda'r cyflenwyr hynny y mae gennym gontract â hwy.	Gwybodaeth fanwl am y proffil gwariant gan ddadansoddiad gwariant Spike Cavell. Rydym yn datblygu dadansoddiad mwy rhagweithiol o wariant gydag offer Proactis. Defnyddiwyd mynediad at ddadansoddiadau cyfredol a hanesyddol o wariant er mwyn llywio cynlluniau'r gyfarwyddiaeth sy'n cael eu datblygu. Defnyddio offer asesiadau ariannol, er enghraifft D&B.	Defnyddiwyd dadansoddiadau o wariant a blaenraglenni gwaith i helpu i nodi meysydd gwariant sylweddol y mae angen eu rheoli'n well e.e. cyfanswm gwerth gwariant "oddi ar gontract" heb eu rheoli. Gwerth uwch gwariant yn yr economi leol – nodwyd categorïau gwariant y gellid eu prynu'n lleol. Cafodd hyn ei hyrwyddo i'r gadwyn gyflenwi leol a rhoddwyd cymorth datblygu er mwyn gallu gwneud ceisiadau. Mabwysiadu ymagwedd dim archeb brynu, dim taliad. Proses dalu awtomatig. Mesur: drwy gynllun gwella gwasanaethau a Dangosyddion Perfformiad Allweddol y cerdyn sgorau corfforaethol.	Dadansoddiad o wariant Proactis, Technegau robotaid Dealltwriaeth a hyfforddiant. Offer adrodd dadansoddiadau gwariant Proactis. Cyflwyno proses a gweithdrefnau clir ar gyfer gwneud archebion. Defnyddio systemau er mwyn cyflwyno systemau talu awtomatig/symml.	2025 Mae angen dull blaengar. Y gwaith i ddechrau yn 2018.

Thema Strategol – Yr Amgylchedd

Strategaeth - Bydd y Cyngor yn cydnabod materion amgylcheddol ac yn mynd i'r afael â hwy drwy'r broses a'r gweithrediadau caffael. Byddwn yn ymdrechu i ddatblygu'r swyddogaeth gaffael mewn ffordd sy'n cydbwysu gwerth economaidd a gwerth cymdeithasol yn gyfartal, cwmpasu datblygu cynaliadwy ac ymgorffori'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ym mhob penderfyniad caffael. Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn diffinio Datblygu Cynaliadwy yng Nghymru fel: "Y broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ar gyfer cyflawni'r nodau llesiant". Fe wnawn bopeth yn ein gallu i helpu'r Cyngor yn ei ymdrechion i gydbwysu'r pum ffordd o weithio sydd eu hangen i Gyrff Cyhoeddus gyflawni'r saith nod llesiant a gyflwynir yn y Ddeddf.

Nodau Strategol (yr hyn yr ydym eisiau ei gyflawni)	Y camau a gymerwyd eisoes tuag at nodau strategol	Beth fydd llwyddiant/sut y caiff ei fesur?	Sut y byddwn yn ei gyflawni	Pryd
Busnes cyfrifol drwy weithgarwch caffael sy'n gweithio i helpu ac nid llesteirio'r ddyletswydd gofal sydd gennym i fod yn deg ac ystyrlon ym mhob agwedd o'n gweithgareddau busnes.	Mabwysiadu Cod Ymarfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi ac ymrwymiad i'r Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol.	Gweithredu Cynllun Gweithredu'r Cod Ymarfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi. Tystiolaeth ddiriaethol bod gweithgarwch caffael yn cefnogi'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Datblygu economi gylchol fel dewis amgen i'r economi linellol draddodiadol o wneud, defnyddio a gwaredu. Mesur: drwy'r cynllun gwella gwasanaethau.	Cynnwys copi o'n Polisi ar Gyflogaeth Foesegol ym mhob gweithgarwch caffael gyda'r gofynion ategol priodol yn y ddogfennaeth dendro. Datblygu Holiaduron Cyn Cymhwyso, meini prawf Ansawdd Tendrau a Methodoleg Gwerthuso sy'n ystyried anghenion Cenedlaethau'r Dyfodol a'r angen i barhau i ddefnyddio adnoddau cyhyd ag y bo'n bosibl, gan sicrhau'r gwerth mwyaf ohonynt tra byddant mewn defnydd, yna eu hadfer a'u hadfywio ar ddiwedd oes pob gwasanaeth er mwyn iddynt barhau i fod o werth ar ffurf arall.	2020
Datblygu dealltwriaeth ac atgyfnerthu'r capasiti caffael er mwyn gwireddu'r gwerth o ddefnyddio strategaethau cynaliadwyedd yn y ffordd y gwnawn hynny.	Mabwysiadu a chymhwyso proses Asesu Risgiau Cynaliadwy safonol cyn tendrau ar gyfer pob gweithgarwch caffael priodol.	Ymgorffori Asesiad Risgiau Cynaliadwy mwy cadarn i gam cyn-chwilio gweithgarwch caffael gyda mwy o bwyslais ar yr angen i nodi dulliau amgen cynaliadwy o fewn diffiniad ehangach o ofynion cynnyrch. Mesur: drwy'r cynllun gwella gwasanaethau.	Adolygu'r dull safonol a fabwysiadwyd eisoes a datblygu Asesiadau Risgiau Cynaliadwy pwrpasol sy'n mynd i'r afael â'r angen i hyrwyddo dewisiadau caffael cynaliadwy amgen cyn cyflwyno i'r farchnad.	2018
Deall a rheoli effaith globaleiddio a chanlyniadau ein cadwyni cyflenwi.	Mabwysiadu Cynllun Gweithredu'r Cod Ymarfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.	Datblygwyd prynwyr sy'n arbenigwyr y gadwyn gyflenwi/y farchnad sy'n deall eu maes arbenigedd ac sy'n gallu mwylhau neu leihau'r effaith y gall masnachu mewn marchnadoedd rhyngwladol ei chael ar ein cadwyni cyflenwi.	Addysg a hyfforddiant o ran gweithredu Cynllun Gweithredu'r Cod Ymarfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi ac integreiddio amcanion y Cod yn y ddogfennaeth safonol ar gaffael.	2020


		Mae'r Rheolwyr Contractau yn gallu sicrhau, drwy gydol oes contract, ei fod yn cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd. Mesur: drwy'r cynllun gwella gwasanaethau.	Cydnabod yr angen i adolygu a rheoli contractau yn weithredol.	

Thema Strategol – Cymdeithasol

Strategaeth – Bydd y Cyngor yn defnyddio ei brosesu caffael i feithrin newidiadau cymdeithasol cadarnhaol lle y bo'n berthnasol. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Cod Ymarfer Cadwyn Gyflenwi Foesegol a byddwn yn defnyddio hyn i ysgogi amodau gweithio teg i bawb. Yn ogystal â hyn byddwn yn ystyried pob deddfwriaeth gyfredol yn y dyfodol neu newid gwleidyddol a ddaw yn sgil proses Brexit a fydd yn ein cynorthwyo i gyflenwi mwy o werth cymdeithasol i'n cymunedau. Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru ystyried effaith eu penderfyniadau yn yr hirdymor, i weithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac i atal problemau cyson meis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd. Yn unol â gofynion y Ddeddf, byddwn yn gweithio cymaint ag y gallwn yn y maes caffael cyhoeddus i gyflawni pob un o'r nodau hynny y gallwn ddylanwadu arnynt, ac nid dim ond un neu ddau ohonynt.

Nodau Strategol (yr hyn yr ydym eisiau ei gyflawni)	Y camau a gymerwyd eisoes tuag at nodau strategol	Beth fydd llwyddiant/sut y caiff ei fesur?	Sut y byddwn yn ei gyflawni	Pryd
Mabwysiadu pob elfen o'r Cod Ymarfer Cadwyni Cyflenwi Moesegol, gan sicrhau ein bod yn cyflawni'r ymrwymadau yng 'Nghynllun Gweithredu' Ymrwymadau Cod Ymarfer Caerffili ym mhob un o'n gweithgareddau caffael.	Mabwysiadwyd Cod Ymarfer a chynhyrchwyd Cynllun Gweithredu Ymrwymadau.	Derbyn a gweithredu'r Cynllun Gweithredu Cadwyni Cyflenwi Moesegol yn llwyr Dangosyddion Perfformiad Allweddol newydd posibl - % o gontractau sydd â chanlyniadau gwerth cymdeithasol wedi'u cynnwys ynddynt? Dyfarnu contractau sy'n ystyried Caethwasiaeth Fodern, Cosbrestrau, Hunangyflogaeth Ffug a defnydd Annheg o gontractau dim oriau. Cydnabod pwysigrwydd y canlyniadau niferus sydd eu hangen, nid dim ond y pris gorau. Mesur: drwy'r cynllun gwella canlyniadau.	Polisi Cadwyni Cyflenwi Moesegol Llywodraeth Cymru, Cynllun Gweithredu y Cyngor. Datblygu dogfennaeth dendro.	Rhagfyr 2018
Datblygu mesurau buddion cymdeithasol cadarn sy'n gallu olrhain llwyddiant canlyniadau sy'n cael eu cyflawni drwy weithgareddau caffael.	Rydym wedi bod yn rhagweithiol mewn sawl maes, gan gynnwys y gofynion ar gyfer prentisiaid, recriwtio a hyfforddiant lleol; pecynnu contractau er mwyn eu gwneud yn fwy deniadol i fentrau bach a chanolig eu maint a mentrau gwirfoddol, cymunedol a chymdeithasol ac ymgysylltu/ymgyngori â'r farchnad cyn pennu contractau. Defnyddiwyd dull olrhain Buddion Cymunedol Llywodraeth Cymru. Dulliau mesur cyfyngedig, os o gwbl, ar waith yn gyffredinol.	Cydnabyddiaeth o fewn y Cyngor bod buddion cymdeithasol yn cael effaith gadarnhaol ar gymunedau ac y dylid eu gwerthfawrogi. Tystiolaeth o foddhad cwsmeriaid drwy arolygon ac astudiaethau achos. Adroddwyd a <u>mesurwyd</u> drwy'r cynllun gwella canlyniadau.	Polisi a thelerau cadarn ac amodau a dulliau monitro effeithiol er mwyn sicrhau cyflawniad. Adolygu Methodoleg TOM a'i gymhwyso pan fydd hynny'n berthnasol.	2018

Pan fydd yn briodol, gofyn i ymgeiswyr nodi ac arddangos y canlyniadau a'r mesurau gwerth cymdeithasol y gallant eu cyflenwi wrth ddarparu'r nwyddau, gwasanaethau a'r gwaith a nodwyd. Pan fydd yn briodol, dylid cynnwys pwysoliadau yn y model gwerthuso tendrau er mwyn asesu'r cynigion gwerth cymdeithasol a gyflwynwyd gan ymgeiswyr.	Gwnaed peth defnydd o bwysoliadau pan fydd buddion craidd yn berthnasol. Diffyg brwdfrydedd yn y sefydliad ar gyfer y math hwn o ddull.	Defnyddir model gwerthuso cynigion sy'n gallu mesur a gwerthuso'r elfen gwerth cymdeithasol sydd yng ngheisiadau tendr cyflenwyr. Mwy o dderbyniad o effaith bosibl gwerth trefniadau masnachu mwy lleol ar gynaliadwyedd yn ein cymunedau. Mesur: drwy ein cynllun gwella gwasanaethau.	Datblygu modelau pwysoliadau priodol i'w defnyddio yn y broses a'r gwerthusiadau o dendrau.	2018
Cymorth busnes i ffurfio rhan hanfodol o'r broses gaffael.	Cymerwyd camau i ddefnyddio cyfarfodydd trafod technegol cyn tendrau gyda'r gadwyn gyflenwi ac adrannau cleientiaid er mwyn deall tueddiadau a strategaethau'r farchnad.	Dull cydweithredol safonol gan gleientiaid a'r gadwyn gyflenwi i ddangos tystiolaeth o werth cymdeithasol. Mesur: drwy'r cynllun gwella gwasanaethau a'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol cerdyn sgorau corfforaethol.	Ymgysylltiad mwy deallus a deinamig gyda chyfranogwyr y farchnad.	2018 gydag adolygiad blynyddol



Atodiad B - Dangosyddion Perfformiad Allweddol y Strategaeth Caffael

Bydd y Dangosyddion Perfformiad Allweddol a restrir isod yn cael eu defnyddio i ddangos pa mor effeithiol mae'r Cyngor yn cyflawni yng nghyd-destun y Nodau Strategol. Bydd y dangosyddion yn cael eu mireinio gan y Pennaeth Caffael yn ystod tymor y Strategaeth.

1. Dangos bod Egwyddorion y Safonau Gwasanaeth Cwsmer yn cael eu bodloni trwy Arolygon Cwsmeriaid
Blynddol
2. % y Gwariant Corfforaethol Blyneddol gyda Chyflenwyr wedi'u lleoli yn:
 - Lleol, Bwrdeistref Sirol Caerffili;
 - Rhanbarthol, Cytundeb Dinesig Prifddinas Caerdydd;
 - yng Nghymru.
3. % y Gwariant Corfforaethol sy'n cael ei Sianelu trwy Drefniadau ar y Cyd
4. % y Cytundebau sy'n cael eu Tendre'n Electronig ar draws y Cyngor
5. Gwariant gan ddefnyddio Cerdyn Prynu
6. e-Anfonebu - Nifer y Cyflenwyr sy'n cymryd rhan
7. e-Anfonebu – Gwerth y Trafodion
8. Nifer y Cytundebau sy'n cynnwys Buddion Cymunedol a/neu Gymalau Gwerth Cymdeithasol
 - Cymalau Craidd mewn Cytundebau, wedi'u Mesur yn ôl Fframwaith Themâu, Canlyniadau a Mesurwyr (TOMs) (neu gyfwerth);
 - Cymalau heb fod yn Greiddiol.

9. Nifer y Cyflenwyr sydd wedi arwyddo i God Ymarfer Llywodraeth Cymru, Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi
10. % yr Adolygiadau Datblygu Perfformiad a gyflawnwyd ym maes Caffael